

Cyngor Sir y Fflint Porth Cymhorthydd Personol Telerau ac Amodau

Tabl Cynnwys

Rhagarweiniad	2
Telerau ac Amodau'r Gofrestr Cymhorthydd Personol	2
Cyffredinol.....	2
Defnyddio'r Gofrestr Cymhorthydd Personol.....	3
• Tasgau a chyfrifoldebau Cymorthyddion Personol (CP)	3
• Tasgau a chyfrifoldebau cyflogwyr	3
• Tasgau a Chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint (CSFf)	4
Atal dros dro neu Derfynu Cyfrifon	4
Hysbysiadau Preifatrwydd y Gofrestr CP	4
• Cymorthyddion Personol	4
• Cyflogwyr	5
Telerau ac Amodau Swyddi Gwag	5
Defnyddio Swyddi Gwag	5
• Tasgau a chyfrifoldebau cyflogwyr	5
• Tasgau a chyfrifoldebau Cymorthyddion Personol (CP)	6
• Tasgau a Chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint (CSFf)	7
Atal dros dro neu Derfynu	7
Hysbysiadau Preifatrwydd Swyddi Gwag.....	7
• Cymorthyddion Personol	7
• Cyflogwyr	8

Rhagarweiniad

Mae Porth Cymhorthydd Personol Cyngor Sir y Fflint yn cynnwys:

- **Cofrestr Cymhorthydd Personol** – plattform i Gymorthyddion Personol sydd ar gael ac yn chwilio am waith i ychwanegu at eu proffil i ddarpar gyflogwyr eu gweld, creu rhestr fer a chysylltu â Chymorthyddion Personol a allai fod yn addas ar gyfer y swydd y maent yn recriwtio ar ei chyfer.
- **Swyddi Gwag** – plattform i gyflogwyr hysbysebu eu swyddi gwag ac i Gymorthyddion Personol ymgeisio amdanynt

Mae Cofrestr Cymhorthydd Personol a Phorth Swyddi Gwag Cyngor Sir y Fflint ar gael i Gyflogwyr Taliadau Uniongyrchol Sir y Fflint yn unig a Chymorthyddion Personol sy'n gallu gweithio yn Sir y Fflint.

Nid yw Cyngor Sir y Fflint yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am addasrwydd y Cymhorthydd Personol, ansawdd y gwaith neu brydlondeb. Mae unrhyw gytundeb neu gontract rhwng y Cyflogwr a'r Cymhorthydd Personol ac nid yw Cyngor Sir y Fflint yn derbyn unrhyw atebolrwydd na chyfrifoldeb am unrhyw faterion a all godi.

Gall unrhyw ddefnyddwyr sydd â phryderon am Gymhorthydd Personol neu Gyflogwr roi gwybod amdanynt i'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol, eu Gweithiwr Cymdeithasol neu drwy'r Tîm Canmoliaeth, Pryderon a Chwynion

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Concerns-and-Complaints.aspx>

Drwy ddefnyddio porth Cymhorthydd Personol Cyngor Sir y Fflint, rydych yn cytuno i'r telerau ac amodau. Gall y rhain newid yn achlysurol ac mae'r fersiwn presennol ar gael ar ein gwefan.

Telerau ac Amodau'r Gofrestr Cymhorthydd Personol

Cyffredinol

Er mwyn creu cyfrif neu i ddefnyddio'r porth Cymhorthydd Personol (CP) mae'n rhaid i chi fod;

- yn 18 oed o leiaf
- yn breswlydd yn y DU a
- gyda hawl i weithio yn y DU

Ni allwch greu mwy nag un cyfrif

Rydym yn eich cynghori i ddiweddarau eich proffil yn rheolaidd gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol neu newidiadau yn eich argaeledd. Dylech hysbysu'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol os nad ydych yn ceisio chwilio am waith mwyach.

Os na fydd proffil wedi cael ei ddiweddarau am fis, byddwch yn cael e-bost i wirio os yw eich argaeledd yn gyfredol. Os na fydd ymateb na newidiadau neu ddiweddariadau wedi eu gwneud ar ôl pythefnos, bydd eich proffil yn anweithredol (ddim ar gael i'r cyhoedd).

Unwaith y bydd proffil yn anweithredol am gyfnod o 6 mis, bydd yn cael ei ddileu.

Defnyddio'r Gofrestr Cymhorthydd Personol

Tasgau a chyfrifoldebau Cymorthyddion Personol (CP)

Pan fydd proffil CP wedi'i greu a'i gymeradwyo gan y Cyngor, bydd y CP yn cael cyfrif. Mae'n rhaid i'r CP;

- Sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y proffil yn gywir, yn wir ac nid yn gamarweiniol
- Sicrhau nad yw gwybodaeth a ddarparwyd mewn adrannau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys unrhyw fanylion cyswllt personol na dolenni URL. Am fwy o wybodaeth ar yr adrannau hyn, gweler yr enghraifft o broffil
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn cynnwys unrhyw gynnwys, gwybodaeth neu luniau sy'n amhriodol neu'n sarhaus
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn torri unrhyw gyfraith, hawliau trydydd parti neu delerau ac amodau
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ddefnyddwyr eraill
- Diweddarau eu gwybodaeth ac argaeledd i weithio drwy eu mewngofnod diogel yn rheolaidd
- Hysbysu'r Cyngor os nad ydynt yn chwilio am waith mwyach ac yn gofyn i'w gwybodaeth beidio bod ar gael neu ei dileu o'r gofrestr yn gyfan gwbl.
- Peidio rhannu eu manylion mewngofnodi unigol ag eraill a chadw'r manylion yn ddiogel ac yn gyfrinachol
- Peidio rhannu manylion unrhyw ddarpar Gyflogwyr ag eraill
- Hysbysu'r Cyngor ar unwaith os torrwyd amodau diogelwch neu os byddant yn amau hynny
- Caniatáu i'r Cyngor reoli eu manylion personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data
- Caniatáu i'r Cyngor gadw eu manylion cyswllt ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol o ran yr Ohebiaeth Gweithlu CP a diweddariadau - mae ganddynt hawl i ofyn am i'w manylion gael eu dileu drwy gysylltu â dp.support@flintshire.gov.uk

Tasgau a chyfrifoldebau cyflogwyr

Pan fydd Cyflogwr wedi dewis y Cymorthyddion maent yn dymuno eu cynnwys ar y rhestr fer, byddant yn gofyn am fwy o wybodaeth gan Gyngor Sir y Fflint. Mae'n rhaid i'r Cyflogwr;

- Beidio rhannu manylion CP gydag unrhyw un arall
- Cysylltu gyda'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol i sicrhau bod holl rwymedigaethau Cyflogwr yn cael eu bodloni yn ystod y broses recriwtio
- Sicrhau nad yw'r cyfathrebu yn cynnwys unrhyw gynnwys, gwybodaeth neu luniau sy'n amhriodol neu'n sarhaus
- Sicrhau nad yw'r cyfathrebu yn torri unrhyw gyfraith, hawliau trydydd parti neu delerau ac amodau.
- Sicrhau nad yw'r cyfathrebu yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ddefnyddwyr

Tasgau a Chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint (CSFf)

- Cynnal y system gofrestru
- Rheoli'r manylion personol sydd wedi'u cynnwys gyda'r gofrestr a chofnodion cysylltiol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data
- Cymeradwyo proffiliau CP a monitro unrhyw gynnwys amhriodol
- Atal dros dro ac / neu derfynu proffiliau ble bo'n briodol

Atal dros dro neu Derfynu Cyfrifon

Mae'r holl broffiliau a chyfrifon yn destun cymeradwyaeth Cyngor Sir y Fflint.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r hawl i atal dros dro neu derfynu unrhyw broffiliau ar unrhyw adeg ble mae'r defnyddiwr wedi neu o bosibl wedi;

- Torri unrhyw un o'r telerau ac amodau hyn
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd twyllodrus
- Torri unrhyw gyfraith neu reoliadau
- Gweithredu mewn modd yr ydym yn ei ystyried yn amhriodol

Gallwch ddod â'ch cyfrif i ben ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Thîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol, Cyngor Sir y Fflint ar 01352 701100 dp.support@flintshire.gov.uk

Hysbysiadau Preifatrwydd y Gofrestr CP

Cymorthyddion Personol

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint dim ond at y diben penodol o ddarparu cymorth i chi gyda recriwtio. Mae angen prosesu eich data personol at ddibenion recriwtio gan Gyflogwyr Taliad Uniongyrchol drwy'r Porth Cymhorthydd Personol. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu darparu fel rhan o dasg gyhoeddus Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn rhannu eich gwybodaeth gyda darpar Gyflogwyr. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich gwybodaeth ar gyfer y cyfnod tra byddwch yn chwilio am waith ac am hyd at 6 mis o fod yn anweithredol.

Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>

Cyflogwyr

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint dim ond at y diben penodol o ddarparu cymorth gyda recriwtio. Mae angen prosesu eich data personol at ddibenion cynorthwyo gyda recriwtio. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu darparu fel rhan o dasg gyhoeddus Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd bartion. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich gwybodaeth er mwyn ymateb i'ch cais am wybodaeth bellach. Unwaith yr ymdrinnir yn foddhaol â'ch ymholiad, bydd eich data'n cael ei ddileu.

Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>

Telerau ac Amodau Swyddi Gwag

Defnyddio Swyddi Gwag

Tasgau a chyfrifoldebau cyflogwyr

Wrth gyflwyno swydd wag / hysbyseb swydd a defnyddio'r porth, mae'n rhaid i gyflogwr;

- Sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd yn yr hysbyseb yn gywir, yn wir ac nid yn gamarweiniol

- Sicrhau nad yw gwybodaeth a ddarparwyd mewn adrannau sydd ar gael i'r cyhoedd yn cynnwys unrhyw fanylion cyswllt personol na dolenni URL
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir nac unrhyw gyfathrebu dilynol yn cynnwys unrhyw gynnwys, gwybodaeth neu luniau sy'n amhriodol neu'n sarhaus
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir nac unrhyw gyfathrebu dilynol yn torri unrhyw gyfraith, hawliau trydydd parti neu delerau ac amodau
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd nac unrhyw gyfathrebu dilynol yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ddefnyddwyr eraill
- Rhoi gwybod i'r Cyngor os nad ydynt yn dymuno recriwtio mwyach a gofyn am i'w hysbyseb gael ei dynnu o'r gronfa ddata gyhoeddus
- Peidio rhannu manylion unrhyw ddarpar Gyflogwyr ag eraill
- Hysbysu'r Cyngor ar unwaith os torrwyd amodau diogelwch neu os byddant yn amau hynny
- Cysylltu gyda'r Tîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol i sicrhau bod holl rwymedigaethau Cyflogwr yn cael eu bodloni yn ystod y broses recriwtio
- Caniatáu i'r Cyngor reoli eu manylion personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.
- Caniatáu i'r Cyngor gadw eu manylion cyswllt ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol o ran Taliadau Uniongyrchol - mae ganddynt hawl i ofyn am i'w manylion cyswllt gael eu dileu drwy gysylltu â dp.support@flintshire.gov.uk

Tasgau a chyfrifoldebau Cymorthyddion Personol (CP)

Os bydd rhywun yn dewis ymgeisio am un o'r swyddi gwag a hysbysebir, mae'n rhaid iddynt

- Sicrhau bod y wybodaeth a ddarparwyd ar eu ffurflen gais neu CV yn gywir, yn wir ac nid yn gamarweiniol
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir nac unrhyw gyfathrebu dilynol yn cynnwys unrhyw gynnwys, gwybodaeth neu luniau sy'n amhriodol neu'n sarhaus
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarperir nac unrhyw gyfathrebu dilynol yn torri unrhyw gyfraith, hawliau trydydd parti neu delerau ac amodau
- Sicrhau nad yw'r wybodaeth a ddarparwyd nac unrhyw gyfathrebu dilynol yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ddefnyddwyr eraill
- Rhoi gwybod i'r Cyngor os nad ydynt yn chwilio am waith mwyach a gofyn am i'w cais gael ei dynnu'n ôl
- Peidio rhannu manylion unrhyw ddarpar Gyflogwyr ag eraill
- Hysbysu'r Cyngor ar unwaith os torrwyd amodau diogelwch neu os byddant yn amau hynny
- Caniatáu i'r Cyngor reoli eu manylion personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data
- Caniatáu i'r Cyngor gadw eu manylion cyswllt ar gyfer cyfathrebu yn y dyfodol o ran yr Ohebiaeth Gweithlu CP a diweddariadau - mae ganddynt hawl i ofyn am i'w manylion gael eu dileu drwy gysylltu â dp.support@flintshire.gov.uk

Tasgau a Chyfrifoldebau Cyngor Sir y Fflint (CSFf)

- Cynnal y gronfa ddata
- Rheoli'r manylion personol sydd wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata a chofnodion cysylltiol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data
- Cymeradwyo swyddi gwag / hysbysebion swyddi a monitro unrhyw gynnwys amhriodol
- Rheoli a chasglu'r ceisiadau a gyflwynwyd a'u trosglwyddo i'r cyflogwr ar gyfer creu rhestr fer
- Atal dros dro ac / neu derfynu defnyddwyr ble bo'n briodol

Atal dros dro neu Derfynu

Mae'r holl hysbysebion yn destun cymeradwyaeth Cyngor Sir y Fflint.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cadw'r hawl i atal dros dro neu derfynu unrhyw hysbysebion ar unrhyw adeg ble mae'r defnyddiwr wedi neu o bosibl wedi;

- Torri unrhyw un o'r telerau ac amodau hyn
- Cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd twyllodrus
- Torri unrhyw gyfraith neu reoliadau
- Gweithredu mewn modd yr ydym yn ei ystyried yn amhriodol

Gallwch ddod â'ch cyfrif i ben ar unrhyw adeg drwy gysylltu â Thîm Cymorth Taliadau Uniongyrchol, Cyngor Sir y Fflint ar 01352 701100 dp.support@flintshire.gov.uk

Hysbysiadau Preifatrwydd Swyddi Gwag

Cymorthyddion Personol

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint dim ond at y diben penodol o ddarparu cymorth gyda recriwtio. Mae angen prosesu eich data personol at ddibenion recriwtio gan Gyflogwyr Taliad Uniongyrchol drwy'r Porth Cymhorthydd Personol. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu darparu fel rhan o dasg gyhoeddus Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn rhannu eich gwybodaeth gyda'r darpar Gyflogwr rydych wedi ymgeisio am eu swydd wag. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich gwybodaeth nes bydd y swydd wag wedi cau a chymorth recriwtio wedi dod i ben, bryd hynny bydd eich data'n cael ei ddileu.

Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan - <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>

Cyflogwyr

Bydd eich data yn cael ei brosesu gan Gyngor Sir y Fflint dim ond at y diben penodol o ddarparu cymorth gyda recriwtio. Mae angen prosesu eich data personol at ddibenion cynorthwyo gyda recriwtio. Mae Taliadau Uniongyrchol yn cael eu darparu fel rhan o dasg gyhoeddus Cyngor Sir y Fflint fel y nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn rhannu eich gwybodaeth gyda thrydydd bartïon. Bydd Cyngor Sir y Fflint yn cadw eich gwybodaeth i hysbysebu eich swydd wag a chefnogi gyda recriwtio. Pan fydd y swydd wag / hysbyseb wedi cau a chymorth recriwtio wedi dod i ben, bydd eich data'n cael ei ddileu.

Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler ein hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan - <https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>